Pecyn Dogfen Cyhoeddus

At: Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu

Dyddiad: 13 Medi 2024

Rhif Union: 01824 712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU, DYDD IAU, 19 MEDI 2024** am **2.00 pm** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Swyddog Monitro

**AGENDA**

**1 PENODI CADEIRYDD**

Penodi Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**CEISIADAU I'W HYSTYRIED -**

**3 DEDDF TRWYDDEDU 2003: CAIS I AMRYWIO TRWYDDED EIDDO – ELLIS'S BAR, 42 - 44 WATER STREET, Y RHYL** (Tudalennau 7 - 78)

Ystyried cais am amrywio Trwydded Eiddo, a bresennol unol ag Adran 34 o Ddeddf Trwyddedu 2003 o ran Ellis's Bar, 42 - 44 Water Street, Y Rhyl (mae amlinelliad o'r cais a phapurau cysylltiedig ynghlwm).

**2.00 pm – 3.30 pm**

**4 DEDDF TRWYDDEDU 2003: ADNEWYDDU TRWYDDED BERSONOL** (Tudalennau 79 - 88)

I ystyried adroddiad cyfrinachol sy'n gofyn am farn yr aelodau ynglŷn â Thrwydded Bersonol yn dilyn euogfarn am drosedd berthnasol o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 (mae amlinelliad o'r cais a phapurau cysylltiedig ynghlwm).

**3.30 pm**

Nodwch y trefniadau i'w cymryd gan yr Is-bwyllgor (sydd ynghlwm wrth y rhaglen hon).

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

Gwyneth Ellis
Bobby Feeley
Hugh Irving

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

## IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

## Y DREFN AR GYFER CEISIADAU A WNEIR DAN Y DDEDDF TRWYDDEDU 2003

| Cam | Disgrifiad |
|---|---|
| 1. | Mae Cadeirydd yr Is-Bwyllgor Trwyddedu yn agor y Gwrandawiad ac yn croesawu pawb sy'n bresennol. Mae'n cyflwyno'r Cydweithwyr ar yr Is-Bwyllgor a'r Swyddogion sy'n Bresennol. |
| 2. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd y Swyddog Trwyddedu i gyflwyno'r Cais. |
| 3. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd yr Ymgeisydd (neu'r Cynrychiolydd Penodedig) i gyflwyno'r Cais. |
| 4. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd unrhyw Awdurdodau Cyfrifol (e.e. Heddlu, Gwasanaeth Tân) i gyflwyno eu sylwadau. |
| 5. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu i ofyn cwestiynau i'r Ymgeisydd neu'r Awdurdodau Cyfrifol. |
| 6. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd y Rhai â Diddordeb i gyflwyno eu sylwadau. |
| 7. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu i ofyn cwestiynau i'r Rhai â Diddordeb ac i egluro unrhyw bwyntiau gyda'r Ymgeisydd. |
| 8. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd yr Ymgeisydd (neu'r Cynrychiolydd Penodedig) i wneud datganiad terfynol. |
| 9. | Bydd Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu yn ymneilltuo i ystyried eu penderfyniad, gyda'r Clerc i'r Gwrandawiad a'r Ymgynghorydd Cyfreithiol i'w canlyn. |
| 10. | Mae Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu yn dychwelyd gyda'u penderfyniad ar y Cais, gyda rhesymau i'w gefnogi. |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU**
**GWEITHDREFN AR GYFER PENDERFYNU AR GEISIADAU TRWYDDEDAU PERSONOL AC ADOLYGU TRWYDDEDAU PERSONOL PRESENNOL**

| CAM | DISGRIFIAD |
|---|---|
| 1. | Dylai’r Cadeirydd groesawu a chyflwyno’r ymgeisydd/deilydd y drwydded i bawb sy'n bresennol. |
| 2. | Dylai’r Cyfreithiwr ofyn i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded i gadarnhau ei fod/bod wedi derbyn yr adroddiad a gweithdrefnau’r Pwyllgor. Os yw’r ymgeisydd yn ateb yn gadarnhaol, dylid symud ymlaen at gam 4. |
| 3. | Pe digwydd i’r ymgeisydd/deilydd y drwydded ddweud nad yw wedi derbyn yr adroddiad, yna dylid cyfarch y mater yn awr. Gallai'r Aelodau fod eisiau ystyried gohirio’r mater, am gyfnod byr, er mwyn i’r ymgeisydd/deilydd y drwydded gael cyfle i ddarllen yr adroddiad. |
| 4. | Dylai Pennaeth Cynllunio a Diogelu’r Cyhoedd (neu gynrychiolydd ar ei ran) gyflwyno’r cais/adolygiad yn fras |
| 5. | Gofynnir i’r ymgeisydd/deilydd y drwydded gyflwyno ei achos/hachos<br><br>Gall yr ymgeisydd/deilydd y drwydded alw unrhyw dyst y mae’n eu dewis i gefnogi ei gais/chais, a dylid rhoi rhybudd ymlaen llaw i’r Swyddogion Trwyddedu ynglŷn â hynny. |
| 6. | Gall Aelodau’r Pwyllgor holi’r ymgeisydd/deilydd y drwydded ac /neu ei dystion ei thystion. |
| 7. | Gwahoddir swyddogion technegol i gyflwyno unrhyw ganfyddiadau |
| 8. | Gall Aelodau’r Pwyllgor ac yna’r ymgeisydd/deilydd y drwydded ofyn cwestiynau i’r swyddogion technegol |
| 9. | Gwahoddir yr ymgeisydd/deilydd y drwydded i gyflwyno sylwadau i gloi, os ydynt yn dymuno gwneud hynny. |
| 10. | Gofynnir i’r canlynol adael y cyfarfod tra trafodir y cais/yr adolygiad gan yr Aelodau - yr ymgeisydd/deilydd y drwydded, pob trydydd parti, Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, swyddogion technegol.<br><br>DS yr unig rai a ddylai fod yn weddill yw – Aelodau’r Pwyllgor, cyfieithydd, cynghorydd cyfreithiol y pwyllgor a’r sawl sy’n cymryd y cofnodion. |
| 11. | Dylai aelodau’r pwyllgor roi ystyriaeth i’r cais/adolygiad gan roi cyfrif am y dystiolaeth a glywyd. |

| | |
|---|---|
| 12. | Pe bai'n angenrheidiol i Aelodau'r Pwyllgor alw unrhyw barti yn eu holau i'w holi neu i ofyn iddynt ddarparu rhagor o wybodaeth neu egluro rhywbeth, gwahoddir pawb a fydd wedi ymneilltuo o'r cyfarfod yn eu holau. Wedi i'r cwestiwn (cwestiynau) gael eu hateb gofynnir i bob trydydd parti ymneilltuo unwaith eto er mwyn i'r Aelodau gael ystyried y dystiolaeth i gyd. |
| 13. | Pan fo'r Aelodau wedi dod i benderfyniad, gelwir yr holl bartïon yn eu holau a chaiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded wybod beth yw penderfyniad yr Aelodau gan y Cadeirydd. |
| 14. | Bydd y Cadeirydd yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded o'r penderfyniad y daethpwyd iddo. Os oes angen, dylai Cyfreithiwr y Cyngor gyflwyno eglurhad pellach ynglŷn â'r penderfyniad a'i oblygiadau i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded. |
| 15. | Os mai'r penderfyniad yw gwrthod neu os oes penderfyniad i atal neu ddirymu, dylai Cyfreithiwr y Cyngor roi gwybod i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded am yr hawl i apelio i Lys Ynadon (bydd y llythyr penderfyniad hefyd yn cynnwys y manylion hyn). |
| 16. | Caiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded ei hysbysu o'r penderfyniad yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bo'r ymarferol bosibl. |
| 17. | Caiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded ei wahodd/gwahodd i drafod unrhyw fater y mae'n ansicr yn ei gylch gyda Swyddogion Trwyddedu yn dilyn y Pwyllgor. |

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Is-bwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 19 Medi 2024 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Swyddog Trwyddedu 01824 712339 trwyddedu@sirddinbych.gov.uk |
| **TESTUN:** | Deddf Trwyddedu 2003<br>Cais i Amrywio Trwydded Eiddo<br>Ellis's Bar, 42 - 44 Water Street, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 1SS.<br>Rhif y Cais 577302 |

## 1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.1 Mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi cael cais i Amrywio Trwydded Eiddo a gyflwynwyd yn unol ag Adran 34 o Ddeddf Trwyddedu 2003 mewn perthynas ag Ellis's Bar, 42 - 44 Water Street, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 1SS. O ganlyniad i'r ymgynghoriad angenrheidiol a'r Rhybudd Cyhoeddus gofynnol, mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi derbyn sylwadau perthnasol sy'n gwrthwynebu'r cais. Mae'n rhaid i'r Is-bwyllgor wneud penderfyniad ar y cais, gan ystyried yr holl ffeithiau/tystiolaeth sy'n berthnasol.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Cais i Amrywio Trwydded Eiddo yw hwn. Mae'r sylwadau a gafwyd yn ymwneud â phob un o'r pedwar o Amcanion Trwyddedu.

2.2 Dylai Aelodau gadw mewn cof bod yn rhaid i unrhyw benderfyniad fod yn unol â (i) Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor a'r (ii) Canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

2.3 Wrth gyflawni swyddogaeth Awdurdod Trwyddedu, rhaid i Aelodau geisio hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu ac os yw'r Aelodau o'r farn bod materion yn gysylltiedig ag un neu ragor o'r amcanion, fe allant arfer eu disgresiwn.

2.4 Dylai Aelodau'r Is-bwyllgor Trwyddedu gadw mewn cof na allant arfer eu disgresiwn mewn unrhyw achos, dim ond am eu bod yn ystyried bod hynny'n ddymunol, a dylid rhoi rheswm (rhesymau) dros unrhyw

benderfyniad a wneir, neu os ystyrir gwyro mewn unrhyw ffordd o’r Protocol, y Polisi neu’r Canllawiau.

## 3.0 ARGYMHELLION

3.1 Penderfyniad yr Is-bwyllgor

Mae’n rhaid i’r Is-bwyllgor, gan ystyried y sylwadau a wneir, gymryd camau o’r fath (isod) y maent yn eu hystyried yn angenrheidiol er mwyn hyrwyddo’r amcanion trwyddedu. Gall yr Is-bwyllgor:

- Ganiatáu’r Cais yr ymgeisiwyd amdano
- Osod unrhyw amodau, i’r graddau y mae’r Awdurdod yn barnu eu bod yn angenrheidiol i hyrwyddo’r amcanion trwyddedu
- Gwrthod y cais

## 4.0 GWYBODAETH GEFNDIR

4.1 Ar 24 Gorffennaf 2024, derbyniodd yr Awdurdod Trwyddedu gais llawn am Amrywio Trwydded Eiddo. Mae’r Cais wedi cael ei gyflwyno gan Mr Leigh Wright a Mrs Christine Wright ac mae copi llawn o’r cais ar gael i'w archwilio yn Atodiad A.

4.2 Mae’r cais yn cynnig tynnu’r adeilad yng nghefn Ellis’s i greu gardd gwrw yn ei le. Mae’r ymgeisydd wedi nodi na fydd yna unrhyw gerddoriaeth yn yr ardd gwrw ar ôl 11pm a bydd Teledu Cylch Caeëdig/staff ar y drysau yn monitro’r ardd gwrw ar ôl 11pm. Bydd ail ddrws hefyd yn cael ei osod i’r ardd gwrw i atal sŵn.

4.3 Ar hyn o bryd mae’r eiddo wedi ei awdurdodi i ddarparu gweithgareddau trwyddedadwy o 09:00 i 04:00 o ddydd Llun i ddydd Sul. Fodd bynnag, gan nad yw’r cais i amrywio yn ymwneud ag ymestyn yr oriau gweithredu presennol dim ond er gwybodaeth i Aelodau y nodir y rhain. Efallai yr hoffai Aelodau archwilio’r Drwydded Eiddo bresennol yn fanylach, mae wedi ei hatodi fel Atodiad B.

4.4 <u>Deddf Trwyddedu 2003 – gwybodaeth/gofynion</u>

Pan gyflwynir cais am drwydded eiddo, mae’n rhaid rhoi copi llawn i bob Awdurdod Cyfrifol, sef:

- Yr heddlu
- Y Gwasanaeth Tân
- Cynllunio
- Safonau Masnach
- Iechyd yr Amgylchedd

- Iechyd a Diogelwch
- Gwasanaethau Plant
- Yr Awdurdod Iechyd
- Yr Awdurdod Trwyddedu
- Y Swyddfa Fewnfudo

4.5 Hysbysiad Cyhoeddus

Mae'n rhaid i'r ymgeisydd roi hysbysiad mewn papur newydd lleol a gosod hysbysiad ar yr adeilad neu wrth ei ymyl. Bydd hynny'n galluogi unigolion, corff neu fusnes i gyflwyno sylwadau perthnasol. Fodd bynnag, bydd yn rhaid iddynt ddangos bod eu sylwadau yn ymwneud â hyrwyddo un o'r amcanion trwyddedu neu fwy. Cafwyd cadarnhad o'r gofyniad hwn.

4.6 Sylwadau Perthnasol

Sylwadau sy'n berthnasol ym marn y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad a dderbyniwyd cyn diwedd y cyfnod statudol o 28 diwrnod:

4.7 Mae saith sylw ysgrifenedig wedi dod i law gan "Unigolion Eraill" mewn ymateb i'r hysbysiad cyhoeddus. Mae'r sylwadau'n ymwneud yn bennaf ag aflonyddwch posibl oherwydd sŵn, ymddygiad gwrthgymdeithasol a Niwsans Cyhoeddus a gellir gweld y manylion yn Atodiad C. Mae un sylw wedi cyfeirio at luniau, gellir gweld y rhain yn Atodiad D.

4.7.1 Mae'r ymgeisydd wedi ymgysylltu gyda Heddlu Gogledd Cymru ac adain Iechyd yr Amgylchedd y Cyngor cyn cyflwyno'r cais ac mae'r ddau Awdurdod Cyfrifol wedi nodi nad oes ganddynt unrhyw sylwadau na gwrthwynebiad yn ymwneud â'r cais, y gallwch ei weld yn Atodiad E.

4.7.2 O ganlyniad i'r sylwadau a gafwyd, cynigiwyd gwasanaeth cyfryngu i'r holl bartïon a phan ysgrifennwyd yr adroddiad hwn ni ddaethpwyd i unrhyw gytundeb ffurfiol. Fel rhan o'r cyfryngu, mae'r ymgeisydd wedi cynnig gwneud nifer o addasiadau i'w gais, fel codi sgriniau rhwystr ac awgrymodd gau'r ardd gwrw ar ôl 23:00, gan gyflwyno gyda'i asiant ddatganiad i "Unigolion Eraill", a gellir gweld y ddau yn Atodiad F. Fodd bynnag, pan ysgrifennwyd yr adroddiad hwn nid yw o leiaf un o'r "Unigolion Eraill" yn fodlon y byddai'r cynigion eraill yn mynd i'r afael â'u pryderon, a gellir gweld eu hymateb i gynigion cychwynnol yr ymgeisydd yn Atodiad G. Bydd Aelodau yn sylwi fod manylion personol nad ydynt yn fanylion yr ymgeisydd a'r gwrthwynebwyr wedi eu golygu o'r sylwadau gan nad ydynt yn berthnasol i'r cais hwn.

4.7.3 Mae'n bwysig fod Aelodau'n nodi bod swyddogion, wrth awgrymu'r dewis o gyfryngu neu drafod i Unigolion Eraill ac ymgeiswyr, yn ofalus i bwysleisio na ddylai aelodau'r cyhoedd deimlo dan orfodaeth i gymryd

rhan mewn cyfryngu. Yn yr un modd, ni ddylai ymgeiswyr deimlo dan bwysau i dderbyn newidiadau i'w hatodlenni gweithredu os credant y byddai'n fwy priodol i'r Aelodau wneud penderfyniad ar y cais.

4.7.4 Amcanion Trwyddedu / Canllawiau / Ystyriaethau Polisi
Mae'r sylwadau perthnasol yn ymwneud â'r amcanion trwyddedu.

Mewn perthynas â'r Cais hwn cyfeirir yr Is-bwyllgor at y Canllawiau a gyhoeddwyd o dan Adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003:

- Atal Niwsans Cyhoeddus **Adrannau 2.15 i 2.21**
- Atal Trosedd ac Anhrefn **Adrannau 2.1 i 2.6**
- Diogelwch y Cyhoedd **Adrannau 2.7 i 2.14**
- Amddiffyn plant rhag niwed **Adrannau 2.22 i 2.32**

4.8 Datganiad Polisi Trwyddedu
Mewn perthynas â'r Cais hwn, cyfeirir yr Is-bwyllgor at Ddatganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor:

- Atal Trosedd ac Anhrefn **Adran 3.1**
- Atal Niwsans Cyhoeddus **Adran 3.3**
- Diogelwch y Cyhoedd **Adran 3.2**
- Amddiffyn plant rhag niwed **Adran 3.4**

4.9 Yn olaf, dylai'r Aelodau hefyd gadw mewn cof bod yn rhaid iddynt ystyried y materion canlynol wrth ddod i benderfyniad ar y cais yn unol â'r Ddeddf Trwyddedu –

- Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998, sy'n rhoi dyletswydd arno i atal/lleihau trosedd ac anhrefn yn yr ardal
- Rheolau cyfiawnder naturiol y gyfraith gyffredin
- Darpariaethau Deddf Hawliau Dynol 1998

5.0 **SYLWADAU'R SWYDDOGION**

5.1 Mae Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad wedi cyflwyno'r sylwadau canlynol i gynorthwyo Aelodau gyda'u hystyriaethau.

5.2 Mae'n rhaid i ymgeiswyr gyflwyno Atodlen Weithredu wedi'i chwblhau ar gyfer ymgeisio am Drwyddedau Eiddo newydd ac i amrywio Trwyddedau Eiddo. Mae'r ymgeisydd wedi cynnig nifer o amodau, gellir gweld yr atodlen weithredu arfaethedig fel rhan o gais y Drwydded Eiddo yn Atodiad A.

5.3 Gan ystyried y pryderon a godwyd gan yr "Unigolion Eraill", bydd Aelodau'n dymuno gofyn cwestiynau perthnasol i'r Ymgeisydd (neu ei

gynrychiolydd) er mwyn sicrhau ei fod yn bwriadu arfer dulliau priodol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

5.4 Gwahoddwyd yr holl bartïon i fod yn bresennol yn y Gwrandawiad.

5.5 Dylai Aelodau gadw mewn cof mai dim ond Aelodau o Is-bwyllgor sydd â'r hawl i bennu amodau i'r Drwydded Eiddo i ddiwygio'r cais gwreiddiol, hynny yw pennu amodau ychwanegol neu ddiwygio'r gweithgareddau a'r oriau trwyddedadwy. Mater i'r Aelodau hefyd yw ystyried a fernir unrhyw amod(au) yn angenrheidiol ac yn briodol.

6.0 **CRYNODEB**

6.1 Dylai Aelodau ystyried y Canllawiau a Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor yn drylwyr, ac yn enwedig felly'r meysydd hynny a amlygir yn yr adroddiad hwn. Dylai Aelodau gadw mewn cof na ddylid gwyro oddi wrth y Polisi dim ond pan fo tystiolaeth/rheswm da dros wneud hynny.

6.2 Oherwydd y sylwadau a gafwyd gan Bartïon Eraill, bydd yn ofynnol i'r Aelodau benderfynu a yw'r sylwadau a gyflwynwyd yn berthnasol ac yn briodol o safbwynt bodloni'r amcanion trwyddedu.

6.3 Os yw'r Aelodau o blaid caniatáu'r cais, eu bod yn ystyried cymeradwyo'r amrywiad a nodir yn 4.2 uchod.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag